



tud 12

Chwaraeon

A large group of children and adults are holding hands in a circle on a paved area, possibly a schoolyard or park. The children are of various ages, and the adults are interspersed among them. They are all looking towards the center of the circle. The background shows trees and a fence.

Longyfarchiadau i'r staff a'r rhieni am eu gwaith yn paratoi at yr achlysur a dymunau'r ysgol ddiolch i bawb am bob cefnogaeth wrth baratoi, trefnu a chlirio. Dymunau'r ysgol ddiolch i'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn am y geiriau pwrpasol yn ystod y prynhawn ac i Mrs Jen Jones y gegin am dorri'r gacen. I gael blas o'r dathlu gellir cyfeirio at luniau gwych Anthony Jarrett (www.ajarrettphotography.co.uk). O gofio fod yr adeilad wedi derbyn peth gwaith allweddol yn ddiweddar mae'n siŵr y bydd yr adeilad pwysig hwn yn gartref clud i genedlaethau o blant yr ardal i'r dyfodol.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560

Tynnu lluniau: Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Lynwen Morgan 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
(01654) 781264
Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Is-gadeirydd: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwennllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwennllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAG



Dewi a Jock

Llongyfarchiadau mawr i Dewi Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont ar gael ei ddewis yn Gapten ar Dîm Cymru ar gyfer Treialon Cŵn Defaid y Byd 2020. Daeth Dewi a'i gi Jock i'r brig wrth gystadlu am le ar y tîm mewn treialon arbennig ar Ystâd Garnons ddechrau mis Medi. Pob lwc i ti gyda'r cystadlu ffwyddyn nesaf.

Ffrindiau Cartref Tregerddan

Cyfarfod Blynnyddol yn y cartref
Nos Fercher 27 Tachwedd
am 7.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb



Darlith Flynyddol Morlan-Pantfyddwen 2019

6.00, nos Fercher, 20 Tachwedd

'Milltir Sgwâr a Byd Crwn'

Darlith gan...

Yr Athro Elwen Evans QC
Prifysgol Abertawe

Canolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
morlan.aber@gmail.com

Am ddim

Tylino Thai Trefechan

Trefechan Thai Massage

Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster

Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

LRJ



Plymio cyffredinol a chynhaliaeth

Llion Jenkins
07958 701861
lilionjenx94@hotmail.co.uk



Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

PARTI CALAN GAEAF

Neuadd Goffa Tal-y-bont
27/10/19 4-6

Disco / Bwyd a diod /
Cystadlaethau gwisg ffansi a
phwmpen orau / twba lwcus

£3 gan gynnwys bwyd
Flw at Gylch Meithrin Tal-y-bont

Dyddiadur


HYDREF

- 11 **Noson o hen ffilmiau o'r ardal** gan y ddiweddar Gwen Davies, Dolclettwr 7 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach. Gwneir casgliad i'w rannu rhwng Eglwys Sant Mihangel ac Apêl Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020. Paned i ddilyn
- 12 **Cwis 7.30-10 Yr Ystafell Haearn**, Eglwysfach
- 13 **Bethel 10 Wyn Morris (C) Rehoboth 11.15 Bugail Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun Bendigaid**
- 14 **Cletwr 'Marchnata eich hun fel arlunydd' (Jill Piercy) 6.30-9**
- 16 **Dawnsio Albanaidd 7.30 Yr Ystafell Haearn**, Eglwysfach
- 17 **Cletwr Blogwyr yn cyfarfod 9.30-11.30yb Tai Chi 2 Yr Ystafell Haearn**, Eglwysfach
Cletwr Ioga ar eich eistedd 7-8.30
- 18 **Sesiwn Nos Wener (Morus Elfryn a Gareth Jones 'Nerw') 8 Yr Llew Gwyn Cwis 8 Wildfowler**
- 19 **Bore Coffi Gofalwyr 10-12 Cletwr Dal Ati 11-12 Cletwr Cyngerdd Byw (Gwilym Morus a Carys Havana) 7.30-9.30 Cletwr**
- 20 **Bethel 10 Gwasanaeth Diolchgarwch y plant Rehoboth 11.15 Bugail Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth Boreol Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Gwasanaeth Diolchgarwch gyda'r Hybarch Hywel Jones**
- 21 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch 'Esgidiau' (Ruth Emily) Cletwr Lawnsio llyfr: 'The making of Ynyslas' (John Mason) 7.30-9**
- 24 **Tai Chi 2 Yr Ystafell Haearn**, Eglwysfach
Bingo 7.30 Wildfowler

- 26 **Parti Calan Gaeaf Cylch Meithrin Tal-y-bont 4-6 Neuadd Goffa Tal-y-bont Cymdeithas Edward Llwyd.** Taith gerdded o gwmpas ardal Tal-y-bont a Chors Fochno. Cychwyn o'r Ysgol Gynradd am 10.30
- 27 **Bethel 10 Geraint Evans Rehoboth 5 Carwyn Arthur Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun Bendigaid**
- 29 **Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn 'The Lost Londonderry Album' (Barbara Walker) 7.30 Llanfach Tennis Bwrdd 7 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach**
- 31 **Tai Chi 2 Yr Ystafell Haearn**, Eglwysfach
Cletwr 'Straeon Tywyll o'r Goedwig' (Daniel Morden) 7-8.30

TACHWEDD

- 1 **Sioe Ffasiynau'r Hydref** Dillad gan Lan Llofft, Duet a Doti a Celt 7 Neuadd Goffa Tal-y-bont. Elw tuag at Cylch Meithrin Tal-y-bont a Chronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020
- 3 **Bethel 10 Uno yn Rehoboth Nasareth 10 Uno yn Rehoboth Rehoboth 10 Bugail Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid**
- 4 **Sefydliad y Merched Eglwysfach Cyfarfod Blynnyddol a Chwis**
- 5 **Sefydliad y Merched Taliesin Cyfarfod Blynnyddol**
- 7 **Tai Chi 2 Yr Ystafell Haearn**, Eglwysfach
Bingo 7.30 Wildfowler
- 8 **Clwb Llyfrau 2.30-3.30 Yr Ystafell Haearn**, Eglwysfach
- Cletwr**
Bob dydd Mawrth 'Clonc a Gweu' 3-5
Bob dydd Sul 'Rhedeg Cymdeithasol' 9.30-10.30



...ond wrth gwrs, ni sy'n cael y bai am yr holl newid yn yr hinsawdd !

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Catrin, gyda Ceri yn dylunio. Diolch iddynt. Y golygyddion ar gyfer y rhifyn nesaf fydd Fal a Gwyn (golygydd@gmail.com). Y dyddiad cau yw 1 Tachwedd a bydd y papur ar werth ar 8 Tachwedd.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i David Bond, Brodawel, Taliesin, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Glangwili ar hyn o bryd. Brysfa wella Dai – rydyn ni'n gweld dy eisiau fan hyn!

Cartref newydd

Pob dymuniad da i Bill ac Eiriona Metcalfe sydd wedi symud i fyw i'r Waun Fawr, Aberystwyth, ar ôl byw yn Nirvana, Tre Taliesin, am gymaint o flynyddoedd. Byddwn yn gweld eu heisiau yn fawr yn y pentref ond gobeithiwn y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd.

Ar y Teledu

Efallai fod rhai ohonoch yn ymwybodol fod gennym seren yn byw yn ein plith. Mae Alwena Jenkins, Ynysgreigiog, Ffwrnais wedi bod yn ymddangos yn wythnosol ar y teledu, ar raglen Y Fets, Milfeddygfa Ystwyth. Y mae yn mynychu Coleg Trefynwy, ac yn gobeithio graddio fel nyrs ym mis Ionawr, 2020. Pob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

Pen-blwydd Arbennig

Pob dymuniad da i Elizabeth James, Cwmudw, Tal-y-bont, a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Caroline Maddison a David Woodbury, Yr Hen Capel Ceulan, Tal-y-bont, ar golli mam Caroline yn ddiweddar. Hefyd cydymdeimlwn â theulu Evan Astley, Y Gorlan, Tal-y-bont ar golli Richard Astley o Lanbrynmair, brawd i Evan yn ddiweddar. Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu'r Parch W. J. Edwards, Bow Street a fu farw'n ddiweddar. Roedd W. J. yn enedigol o Daliesin ac yn falch iawn o'i wreiddiau fel y gwelwyd yn ei gyfraniadau niferus dros y blynyddoedd i Bapur Pawb. Bydd teyrnged yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o'r papur.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Spencer a Natasha Davies, Maes-y-Deri, Tal-y-bont ar enedigaeth eu hwyr bach newydd Alfie Spencer Davies, mab bach i Mathew Davies a Kathryn Botting, Cwm Glas, Tal-y-bont.

Bore Coffi, Eglwysfach

Er gwaethaf y tywydd garw ar fore Sadwrn, Medi 28, daeth tyrfa deilwng i gefnogi'r bore coffi er budd gofalwyr Macmillan. Diolch i bawb a gyfrannodd, a chodwyd y swm o £193.50 at yr achos teilwng yma.



Priodas

Llongyfarchiadau calonnog i Rhys Richards, Clap y Cripiau, Ffwrnais a Ffion Harries, Pentalar, Blaenffos ar eu priodas ar y 17eg o Awst yng Nghapel y Bedyddwyr, Blaenffos. Treulwyd y mis mêl yn Mexico. Dymuniadau gorau i'r ddau, sydd wedi ymgartrefu yn fferm Gwernant yn Rhydlewis, lle mae Rhys yn ffermio a Ffion yn athrawes yn Ysgol y Preseli.



Priodas Ddeiamwnt

Llongyfarchiadau calonnog i Gwilym ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont ar ddathlu eu priodas ddeiamwnt yn ddiweddar. Priodwyd y ddau ar 23 Medi 1959 yng nghapel Bethel, Tal-y-bont gyda'r diweddar Barch. Iorwerth Jones yn gweinyddu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Menna, Gerwyn a Tomos, Dôl Pistyll, Tal-y-bont ar golli tad Menna sef Bifan Prys Morgan, Cwrtnewydd ddiwedd mis Medi.

Symud

Dymuniadau gorau i Sujittra Thomos sydd wedi symud o Rhydyronnen, Tal-y-bont ac sydd ar hyn o bryd yn treulio cyfnod gyda'r teulu yng ngwlad Thai.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Nicola a Wayne Bradley, Maes-y-Deri, Tal-y-bont ar ddod yn dad-cu a Mam-gu i Archie James Spencer-Bradley, mab bach i Shauna a Joe, Lôn Glanfred, Llandre. Mae Archie yn or-wyr i Arwel a Gill West, White Windows, Tal-y-bont, llongyfarchiadau iddynt hwythau hefyd.



Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Llŷr James a Lowri Haf Morgan ar eu priodas ar y 7 Medi. Dymuniadau gorau i'r ddau sydd wedi ymgartrefu yn Llannerchclwydau, Bont-goch.

Rali Bae Ceredigion

Daeth cyffro'r byd ceir i'r ardal ar benwythnos y 7 a'r 8 Medi gyda Rali Bae Ceredigion. Dyma'r rali gyntaf o'i math yng Nghymru gan fod y trefnwyr wedi defnyddio 43 milltir o ffyrdd cyhoeddus wedi eu cau i'r cyhoedd. Gwelwyd ddenu cannoedd o wylwyr i wylïo'r cymalau oedd yn mynd â'r raliwyr o Bont-goch i fyny at ardal cronfa ddŵr Nant-y-moch a draw wedyn i Ystumtuen gyda'r cymal olaf o amgylch Pendam.

Symud Tŷ

Dymuniadau gorau i Florence Nairne a Robert Walker sydd wedi ymgartrefu yn Erwau Glas, Tal-y-bont o ardal Loch Ness yn yr Alban.

Dymuniadau Da

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i Llinos Jarvis o Faes-y-Deri, Tal-y-bont sydd yng nghartref Plas Cwmcynfelin ar hyn o bryd.

Dyweddiad

Pob dymuniad da i Ben Bradley, Maes-y-Deri, Tal-y-bont a Siwan Morris, Machynlleth ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

Cartref Newydd

Dymuniadau gorau i Mathew, Kathryn ac Alfie yn eu cartref newydd yn Cwm Glas, Tal-y-bont.



Cylch Meithrin

Braf oedd gweld Sam Ebenezer nôl adre yn canu yn y sioe Sbri diri gyda phlantos Cylch Meithrin Tal-y-bont ar ddydd Iau, 3 Hydref. Mae Sam yn dod o Dal-y-bont yn wreiddiol ac wedi symud i Lundain i fyw gyda'r byd o 'Show Biz'. Mae Sam yn actor a chanwr talentog iawn. Wnaeth y plant a staff y Cylch joio mas draw gyda Mr Urdd a Sam.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Medi

Cychwynwyd cyfarfod Mis Medi a gynhaliwyd ar Nos Lun, 30 Medi gyda'r Cadeirydd, Cyng. David Jones, yn croesawu pawb i'w cyfarfod cyntaf ers gwyliau'r haf.

Prosiect Mynydd i'r Môr

Darllenodd y Clerc gynnwys e-bost oddi wrth Andy Rowland yn egluro fod Bwrdd Ecodyfi wedi penderfynu tynnu allan o'r bartneriaeth sydd yn cefnogi'r Prosiect Mynydd i'r Môr. Ychwanegodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi tynnu allan. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ysgrifennu at Swyddog y Prosiect, Melanie Newton yn mynegi pryder y cyngor am y diffyg ymgynghori ac yn gwrthwynebu amcanion y prosiect.

Materion y Fynwent

Cafwyd diweddariad ar faterion yn ymwneud â'r fynwent. Cytunwyd y bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod yn ystod Mis Hydref i drafod nifer o faterion yn cynnwys estyniad i'r fynwent ac arwyddion newydd ar gyfer y mynediad i'r fynwent.

Cynllunio

Cyflwynodd y Clerc fanylion dau gais cynllunio o fewn ardal y Cyngor Cymuned. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i wrthwynebu cais i godi tŷ newydd ar dir ger y cae chwarae ym Mhenlon, Tal-y-bont. Cytunwyd i beidio â chynnig barn ar y cais arall yn Bont-goch.

Seremoni Sul y Cofio

Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Megan Mai ar y trefniadau tuag at Sul y Cofio ar 10 Tachwedd 2019. Nodwyd y cynhelir y gwasanaeth coffa a fydd yn agored i bawb yn y Neuadd Goffa am 10:45 y bore. Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod yn fuan i gadarnhau'r manylion a'r trefniadau.

Seremoni Goleuo y Nadolig

Cytunwyd y bydd y Seremoni Goleuo yn cael ei chynnal ar ddydd Iau, 5 Rhagfyr 2019. Bydd union fanylion y Seremoni Goleuo ger y Neuadd Goffa yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

Materion Ffyrdd

Eglurodd y Cadeirydd, Cyng. David Jones, ei fod ef a'r Clerc wedi mynd ar wibdaith o'r ardal dros gyfnod yr haf yn ymweld â nifer o faterion penodol sydd angen sylw ac yn arbennig yn ymwneud â chyflwr y ffyrdd yn y Gymuned. Yn dilyn hyn cytunwyd y bydd y Clerc yn cysylltu gyda swyddogion Cyngor Sir Ceredigion ynglyn â'r eitemau yma. Yn ystod y cyfarfod ychwanegwyd tair eitem newydd i'r rhestr sydd angen sylw.

Materion Eraill

Trafodwyd nifer o faterion eraill yn cynnwys lleoliad y meinciau yn y Gymuned ac eitemau sydd angen sylw yn y caeau chwarae yn Nhal-y-bont a Bont-goch. Cynhelir cyfarfod misol nesaf y Cyngor ar Nos Lun, 28 Hydref 2019.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002

Ysgol Tal-y-bont



Parti 50 yr ysgol



Rala Rwdins



Ysgol Iach / Ysgol Eco



Parti pen-blwydd Recordiau Sain

Dydd Agored y Defaid Mynydd

Ar brynhawn Sadwrn eithriadol o braf ar yr 21 Medi cynhaliwyd Dydd Agored y Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig – Adran Fynydd ar fferm Tynant, Tal-y-bont. Tro Cymdeithas Ceredigion oedd hi eleni i gynnal y digwyddiad, a chyfle i aelodau a ffrindiau o bell ac agos i weld y ddiadell yn ei chynefin ar fynydd Bwlch-y-garreg ac ar fynydd Bwlchglas.

Mae teulu Tynant yn ffermio 2,600 o aceri yng ngogledd y Sir ac yn cadw diadell o 2,000 o famogiaid. Bydd 450 o ŵyn benyw yn cael eu cadw yn flynyddol a byddant yn gaeafu am y chwe mis nesaf ar ffermydd yn ardal Castell Newydd Emlyn. Braf oedd gweld y rhain yn cael eu dangos ar eu gorau yn ystod y diwrnod.

Cafwyd taith gofiadwy o tua 13 milltir ar dractorau a threlars o gwm Tynant allan i gwm Ceulan ac ymlaen i lociau defaid Bwlch-y-garreg. Teithio wedyn drwy goed Dolrhuddlan a Chyneiniog i Fwlchglas. Daeth trefniadau'r dydd i ben yn Nhynant ble cafwyd lluniaeth o gig oen cartref wedi ei baratoi gan gigydd Bow Street a chacennau cartref i ddilyn, diolch i aelodau a gwragedd y Gymdeithas.

Mae fferm Tynant yn enghraifft dda o deulu a fentrodd i ehangu'r busnes ac i sicrhau bywoliaeth bellach i dri theulu sy'n byw o fewn ergyd carreg i'w gilydd. Tipyn o gamp i unrhyw fusnes yng nghefn gwlad. Cartref Dilwyn a Marion yw Tynant ac mae Rhydian, Eifiona, Mari ac Ieuan yn byw yng Nglanaber ac Elgan, Siwan, Elsi a Magw ym Mhantcoch. Symudodd y diweddar Gwilym a Myfanwy Evans i ffermio Tynant o dyddyn Maesglas, Tal-y-bont yn 1948 a bellach Rhydian ac Elgan yw'r bedwaredd genhedlaeth i amaethu'r tir. Roedd Alun Elidyr a chriw ffilmio'r rhaglen Ffermio ar S4C yno ar y diwrnod a gwelwyd eitem ar raglen nos Lun Medi 30.

Llongyfarchiadau mawr i'r teulu am drefnu diwrnod penigamp a diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y Dydd Agored ac mae'n siŵr y bydd golygfeydd yr ardal a gweld y ddiadell yn aros yn hir yn y cof.



Casgliad o Enwau Tai Annedd Diflanedig Gogledd Ceredigion

Ffilm gan: **Gwilym Jenkins**



gyda chymorth:

y diweddar **Edgar Humphreys**, Bwlch Styllen
y diweddar **Huw Huws**, Tynrhelyg
y diweddar **Defi Tomos Lloyd**, Penrhiw
y diweddar **Bennett Jenkins**, Cerrigcaranau

Eurfryn Williams, Pensarn
Barbara Jenkins, Cefngweiriog
Cledwyn Fychan, Llanddeiniol
Elgan Evans, Pantcoch

Nos Fercher, 6 Tachwedd 2019

7:30yh • Capel Bethel • £5 / plant am ddim

Tuag at Apêl Madagasgar, Undeb yr Annibynwyr
Croeso cynnes i bawb

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com



Glanymfryn

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Gŵyl R S Thomas, Eglwysfach

Cynhaliwyd gŵyl hynod o lwyddiannus unwaith eto. Daeth nifer fawr o ymwelwyr a phobl leol at ei gilydd yn yr eglwys dros benwythnos Medi 20-22. Cynhaliwyd nifer o ddarlithiau yn amrywio o ffynhonnau sanctaidd Cymru i Gerddi Serch R. S. Thomas i'w wraig Elsi Eldridge.

Dechreuodd yr Ŵyl gyda thaith dywys wedi'i harwain gan Richard Suggett i weld yr adeiladau a thirwedd a oedd yn gyfarwydd i R. S. Thomas ac fe gafodd tua 30 ohonom daith hyfryd o gwmpas y pentref, heibio Ynyshir a'r Ffwrnes a lan Cwm Einion draw i ben y Foel i fwynhau'r golygfeydd godidog o ddyffryn Dyfi. Yn y prynhawn cawsom ddarlithiau gan Phil Cope a Menna Elfyn. Cafwyd darlithiau hefyd dros yr ŵyl gan yr Athro Tony Brown, Matthew Jarvis a Richard Suggett.

Ar fore Sadwrn cawsom wasanaeth arbennig o dan ofal y Parchedig Canon Enid Morgan gyda'r Gwir Barchedig Barry Morgan, Cyn Archesgob Cymru yn pregethu. Yn dilyn y gwasanaeth ar ôl te hyfryd yn yr Ystafell Haearn, cawsom y fraint o glywed y cyn Archesgob yn sôn am ei atgofion o RS ac yn trafod ei berthynas agos gyda'r Eglwys yng Nghymru.

Ar y dydd Sul, ar ôl gwasanaeth y Cymun, cafwyd Darlleniad o gerddi gan Gillian Clarke a Menna Elfyn. Braf iawn oedd gwrandao ar y ddwy ffrind yn darllen eu gwaith. Yn y prynhawn cawsom ddiweddsglo addas iawn i'r ŵyl, sef y gystadleuaeth farddonol. Roedd yr eglwys yn orlawn i wrando ar 77 o gerddi gan 51 bardd. Y beirniaid oedd Gillian Clarke a'r Athro Tony Brown. Yr enillydd oedd Gareth Culshaw. *Delyth Griffiths*

Cffi Tal-y-bont

Daeth criw da iawn o aelodau hen a newydd i noson sosial fach ar ôl seibiant bach dros fisoedd yr haf.

Mae rhaglen ddifyr iawn wedi chael ei threfnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod o dan ofal Richard John ein cadeirydd newydd, Teleri Morgan ein ysgrifynyddes hynod o drefnus, a llygad barcud ariannol Catrin Davies.

Un o'r prif weithgareddau yn ystod mis Medi oedd paratoi ar gyfer Diwrnod Gwaith Maes y Sir a gynhaliwyd dydd Sadwrn 28 o Fedi yn Nhrawscoed. Cafwyd diwrnod da iawn o gystadlu yno a llongyfarchiadau i bawb o'r clwb oedd wedi cymryd rhan.

Yn ystod mis Hydref byddwn fel aelodau yn paratoi ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod y Sir fydd yn cael ei chynnal ar y 31ain o Hydref a'r 2il o Dachwedd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Dewch yn llw!

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir cwrdd diolchgarwch am y cynhaef Eglwys Elerch ar ddydd Sul, 20 Hydref am 2-30pm. Y pregethwr gwadd yw'r Hybarch Hywel Jones. Cyflwynir y casgliad i elusen lleol. Croeso i bawb.

GWASANAETH GARDDIO MYNACH

Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Chwynu Dal Gwaddod Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
01974 261758
07792457816

mynachgarden@yahoo.com

Cadair arall i'r Prifardd

Llongyfarchiadau i Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont ar ennill y gadair yn Eisteddfod Gadeiriol Tregaron ar 14 Medi. Cyflwynwyd y gadair eleni am gerdd ar y testun 'Drych' a gwelir y beirniad Y Prifardd Aneirin Karadog gyda Gwenallt yn y llun.



Sesiwn Nos Wener

Agorwyd y tymor newydd ar nos Wener, 27 Medi yn y Llew Du, Tal-y-bont yng nghwmni Gai Toms. Daeth cynulleidfada dda at ei gilydd i fwynhau noson o gerddoriaeth bwerus a gwreiddiol yn null unigryw y canwr amryddawn.

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703502
Heol Y Doli, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk

Y LLEW GWYN

Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwr: £7.95 Dau gwr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Buyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL

YBlac

01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

Canlyniadau Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn

LLYSIAU 3 Tatws 1. J. and P. Regan 2. H. Hicks 3. H. Hicks	3 Afal Pwdin 1. M. Leeding 2. W. Griffiths 3. A. Mitchell	COGINIO Cacen Fictoria 1. V. Walsh 2. K. Jones 3. Sue Lewis	Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran: G. Jones Arddangosfa orau yn yr adran: Sharon Lewis	Cread Gwreiddiol mewn Lego (ysgol gynradd) 1. A. Hodgson
4 Sialots 1. P. Fleming 2. W. Griffiths	6 Eirin Sbaen 1. M. Fleming 2. G. Le Helloco 3. I. Leslie	Fy Hoff Gacen 1. V. Walsh 2. K. Edwards 3. J. Nicholls	BLODAU 5 Coesyn Unigol (cymysg) 1. C. Briddon 2. C. Briddon 3. J. and P. Regan	Llun o Basta (ysgol gynradd) 1. A. Jarrett
3 Nionod 1. V. Walsh 2. P. Fleming 3. J. and P. Regan	3 Coesyn Riwbob 1. V. Walsh 2. H. Hicks 3. W. Griffiths	Dosbarth Dchreuwy​r: 4 ‘Brownie’ Siocled 1. I. Lewis 2. L. Lionel	3 Coesyn Unigol (yr un math o flodyn) 1. G. Le Helloco 2. K. Jone 3. J. and P. Regan	Bwntin Papur (llai na 3m) (ysgol uwchradd) 2. B. Fflur
3 Betys 1. J. and P. Regan 2. J. and P. Regan 3. P. Fleming	3 Gellyg 1. G. Le Helloco 2. J. South	Bara Brith (heb furum) 1. M. Leeding 2. Sue Lewis 3. L. Lionel	Planhigyn Ty mewn Pot (y deiliant) 1. C. Briddon 2. J. Nowak 3. J. Nowak	Arddangosfa neu Lun o Ddail Coed (ysgl uwchradd) 1. J. Foster Leslie 2. J. Berry
3 Cennin 1. J. and P. Regan 2. P. Fleming 3. D. Beale	Ffrwythau Cymysg mewn Basged Bach 1. A. Mitchell	Cacen yn Corffori Llysieuyn 1. Sue Lewis 2. J. Pugh 3. N. and L. McGuff	Planhigion Ty mewn Pot (yn ei flodau) 1. C. Gilbert 2. Sue Lewis 3. G. Griffiths	Print Llysieuyn (yn iau na 5 mlwydd oed) 1. A. Jenkin 2. Z. Hodgson
4 Ffa Dringo 1. J. and P. Regan 2. W. Griffiths 3. V. Walsh	6 Mwyr Duon neu Mafon 1. G. Le Helloco 2. A. Mitchell 3. J. and P. Regan	2 Bastai 1. G. Griffiths 2. M. Fleming	Cactws neu Blanhigyn Suddlon (mewn pot) 1. Sharon Lewis 2. J. Nowak 3. J. Nowak	Coginio: 4 Tarten Jam (ysgol uwchradd) 1. Ff. Hicks 2. B. Fflur
4 Ffa Frengig 1. H. Hicks 2. W. Griffiths 3. G. Le Helloco	Y nifer uchaf o bwyntiau yn y adran: G. Le Helloco Arddangosfa orau yn yr adran: W. Griffiths	4 Pice ar y Maen 1. M. Fleming	Potyn neu Fasged wedi ei Blannu 1. J. Nowak 2. J. Pugh 3. M. Fleming	Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran: Ff. Hicks Gwobr arbennig er cof am Judith Pearson: F. Mitchell
2 Ciwcymbr 1. H. Hicks 2. J. and P. Regan 3. J. and P. Regan	CYFEITHIAU Jar o Jam 1. V. Walsh 2. M. Fleming 3. V. Walsh	Torth Fach Wen, 1 pwys (wedi ei gwneud a llaw) 1. W.Griffiths 2. W. Griffiths 3. C. Gouldney	Potyn neu Fasged wedi ei Blannu 1. J. Nowak 2. J. Pugh 3. M. Fleming	CREFFTAU Peintiad: Cerdded yng Nghefn Gwlad (A3 max) 1. E. Thomas 2. A. Keighley 3. J. and P. Regan
4 Ffa Frengig 1. H. Hicks 2. W. Griffiths 3. G. Le Helloco	Jar o Jeli (ffrwyth) 1. M. Fleming 2. G. Le Helloco 3. L. Lionel	Torth Fach Arbennig, 1 pwys 1. J. Adams 2. W. Griffiths 3. E. Antwiss	I nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran: J. Nowak Arddangosfa​rau yn yr adran: C. Gilbert	Eitem Wedi ei Gwneud o Froc Mor (30x30cm max) 1. R. Spencer
2 Ciwcymbr 1. H. Hicks 2. J. and P. Regan 3. J. and P. Regan	Jar o Sytni 1. Sharon Lewis 2. H. Hicks	Tarten ‘Bakewell’ (dim mwy na 15cm) 1. G. Griffiths 2. J. Pugh 3. S. Peterson	CEL​F FLODAU Garw Gyda Llyfn (50x50cm max) 1. C. Gilbert 2. G. Griffiths	Eitem Wedi ei Gwneud o Froc Mor (30x30cm max) 1. R. Spencer
Cangen o Domatos 1. A. Mitchell 2. J. and P. Regan 3. W. Griffiths	Jar o Farmaled 1. V. Walsh 2. E. Antwiss 3. W. Griffiths	3 Cacen Frau y Miliwnydd 1. L. Hicks 2. M. Fleming 3. E. Antwiss	Dewch i Fwyta Gyda Mi (30x30cm max) 1. C. Gilbert 2. G. Griffiths 3. Ff. Hicks	Het Wedi Gwau neu Crosio 1. A. Haynes 2. J. Nicholls 3. K. Jones
3 Tshilis 1. H. Hicks 2. H.Hicks	Jar o Geuled Ffrwythau 1. L. Lionel	Cacen Ceirios (dynion yn unig) 1. Geraint Lewis 2. W. Griffiths 3. Geraint Lewis	Y Tymor yn Datblygu (30x30cm max) 1. C. Gilbert 2. K. Jones	Eitem o Bren 1. R. Spencer 2. L. Hicks 3. J. Cartwright
3 Corbwmpenni 1. Mitchell	Jar o Gyffaith Anghyffredin 1. H. Hicks 2. V. Walsh 3. L. Lionel	Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran: W. Griffiths, G. Griffiths Arddangosfa orau yn yr adran: J. Adams	Ysgol Uwchradd: Trefniant mewn Tebot 1. B. Fflur	Robin Goch (unrhyw gyfrwng) 1. G. Griffiths 2. J. Pugh, K. Jones (joint)
Blwch o Lysiau Cymysg 1. Geraint Lewis 2. H. Hicks	Jar o Bicls 1. W. Griffiths 2. W. Griffiths 3. J. and P. Regan	CYNNYRCH FFERM 3 Wy Brown 1. G. Jones	Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran: C. Gilbert Arddangosfa orau yn yr adran: C. Gilbert	Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran: R. Spencer Arddangosfa orau yn yr adran: E. Thomas
Bwnsiaid o Berlysiau Cymysg mewn jar 1. J. and P. Regan 2. H. Hicks 3. C. Gilbert	Jar o Jeli o Berlysiau 1. J. South 2. Sharon Lewis 3. G. Le Helloco	3 Wy Gwyn 1. G. Le Helloco	Ysgol Uwchradd: Trefniant mewn Tebot 1. B. Fflur	FFOTOGRAFFIAETH I PAWB Gardd 1. J. Berry 2. A. Jarret 3. N. Shelton
Llysieuyn Dishap 1. I. Jones 2. H. Hicks	Dosbarth Dechreuwy​r: Jar o Jam Ffrwythau 1. L. Lionel 2. J. Nowak	3 Wy Arlliwiedig 1. G. Jones 2. A. Mitchell	Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran: C. Gilbert Arddangosfa orau yn yr adran: C. Gilbert	Teulu 1. J. Nowak 2. N. McGuff 3. K. Edwards
Y Ffa Hiraf 1. Geraint Lewis 2. J. and P. Regan 3. D. Beale	Botel o Gordial 1. E. Antwiss 2. Sharon Lewis 3. C. Gilbert	3 Wy o Wahanol Liw 1. G. Jones	YR ADRAN PLANT Llwy Bren wedi ei Addurno (ysgol gynradd) 1. F. Mitchell 2. D. Lewis 3. F. Taylor	Gwylliau 1. P. Regan 2. G. Griffiths 3. N. McGuff
2 Unrhyw Lysieuyn heb ei Restr​i Uchod 1. G. Le Helloco 2. P. Fleming 3. G. Le Helloco	Gwirod Ffrwyth 1. G. Le Helloco 2. M. Fleming 3. M. Fleming	Disgyl Fach o Bâté 1. G. Griffiths 2. M. Fleming	Gardd Tylwydd Teg (ysgol gynradd) 1. D. Lewis 2. L. Cartwright	Anifail 1. N. McGuff 2. N.McGuff 3. C. Briddon
Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran: J. and P. Regan Arddangosfa orau yn yr adran: H. Hicks	Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran: V. Walsh Arddangosfa orau yn yr adran: L. Lionel	Jar o Fel Clir 1. A. Mitchell 2. P. and J. Regan 3. R. Spencer	Gardd Tylwydd Teg (ysgol uwchradd) 1. Ff. Hicks 2. R. Evans 3. S. Pawlik	Y nifer uchaf o bwyntiauyn yr adran: N. McGuff Arddangosfa orau yn yr adran: N. McGuff
FFRWYTHAU 3 Afal Coginio 1. W. Griffiths 2. J. and P. Regan 3. I. Jones	Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran: V. Walsh Arddangosfa orau yn yr adran: L. Lionel	Salad Tatws 1. Sharon Lewis 2. L. Hicks 3. G. Le Helloco	Trysorau (ysgol gynradd) 1. E. Hodgson 2. A. Jarrett 3. F. Taylor	BWGAN BRAIN Unrhyw gymeriad 1. P. Wills 2. Mitchell

Pantri Pawb

Yn wreiddiol o Fro Morgannwg, es i Brifysgol Aberystwyth ac ar ôl graddio o'n i'n ffodus i gael swydd gyda'r RSPB, ac wedi bod yn gweithio gyda'r elusen am dros 35 mlynedd, 30 mlynedd yng Ngwarchodfa Ynys-hir fel warden. Fy mhrif ddiddordebau yw gwylio adar, darllen, croesair cryptig (fel arfer yn y Llew Gwyn), ac, wrth gwrs, coginio.

Mae bochau porc yn prysur ddod yn gynhwysyn poblogaidd mewn bwydlenni bwytai a ryseitiai Tapas. Daw'r bochau porc gorau o foch DU Iberaidd o'r enw Cerdo Ibérico, sy'n cael eu bwydo ar ddeiet o laswellt a mês. Mae lliw'r bochau Iberico yn dywyllach na bochau porc safonol ac maent yn tueddu i fod ychydig yn llai ond os cânt eu coginio'n dda, mae blas y bechgyn drwg hyn yn anhygoel! Cyfoethog.

Russell Jones, Bron-y-gan

Bochau porc wedi'u rhostio gyda sieri a thatws stwnsh garleg rhost

Ar gyfer y bochau porc

- 1 boch gyda'r braster wedi'i docio
- 5 llwy fwrdd olew olewydd
- 4 banana mawr, wedi'u malu'n fân
- 1 moron mawr, wedi'u plicio a'u torri'n giwbiau mân
- 2 coesyn o seleri gyda'r dail, wedi'u torri'n giwbiau mân
- 1 deilen llawryf
- 4 sbrigyn o teim
- Blawd plaen i rolïo'r bochau
- 1ltr o stoc eidion
- 300ml sieri amontillado
- Halen a phupur i flasau



Stwnsh tatws garleg rhost

- 500g tatw Brenin Edward, wedi'u plicio a'u torri'n ddarnau bach
- 4 clof o arleg, gyda'r croen
- 100g menyng
- 1 llwy fwrdd o olew olewydd crai
- Halen i flasau

Ar gyfer y sialôts crisb

- 1 sialot banana mawr, wedi'i plicio a'u torri'n gylchoedd bach
- 2 lwy fwrdd o flawd plaen
- 4 llwy fwrdd o laeth
- Halen i flasau

Dull

- Mewn dysgl gaserol fawr, cynheswch 3 llwy fwrdd o'r olew olewydd nes iddo ddechrau ysmegu.
- Rholiwc y bochau porc yn y blawd ac ysgwyd y blawd sydd dros ben. Ffiriwc y bochau mewn sypiau bach, nes eu bod yn frown euraid. Mae'n cymryd tua 3 munud ar bob ochr. Draeniwc y bochau porc ar bapur cegin a'u rhoi o'r neilltu.
- Yn yr un ddysgl caserol, ychwanegwch llwy fwrdd ychwanegol o olew olewydd os oes angen a ffrio'r winwns, y moron, y dail seleri a'r ddeilen bae ar wres canolig. Gwnewch yn siŵr eich bod yn crafu gwaelod y badell i dynnu'r darnau sydd wedi caramleiddio wrth ffrio'r bochau a'r llysiau nes bod y gymysgedd yn datblygu lliw brown euraidd golau. Tua 8 munud.
- Dychwelwch y bochau porc i'r ddysgl caserol, ychwanegwch y sbrigau teim, sesnwch gyda halen a phupur. Arllwyswch y sieri i mewn a'u coginio ar wres uchel am 2 funud nes bod y sieri wedi lleihau ychydig. Arllwyswch y stoc cig eidion i mewn, gan droi'r gwres i lawr a'i fudferwi am 3 awr.
- Yn y cyfamser, rhowch y tatws mewn sosban o ddŵr hallt, dewch â'r cyfan i'r berw, yna mudferwch am 15 munud, neu nes eu bod yn dyner i wneud stwnsh.
- Ar gyfer y garleg rhost, rhowch y clofau garleg ar dun pobi gyda mymryn bach o olew olewydd a'u pobi mewn ffwrn 190°C/375°F/Nwy 5 am 15 munud neu nes eu bod yn feddal. Gadewch i'r clofau garleg oeri. Defnyddiwch eich bys i wthio'r garleg allan o'i groen, torrwc yn fân nes bod gennych biwri llyfn.
- Draeniwc a dychwelwch y tatws i'r sosban i gael gwared ar unrhyw leithder gormodol. Stwnshiwc yn dda, ychwanegwch y menyng, yr olew olewydd a'r piwri garleg rhost. Sesnwch â halen a phupur.
- Ar gyfer y sialôts crisb, dipiwc y sialots yn y llaeth a'u rholio yn y blawd nes eu gorchuddio'n dda. Cynheswch yr olew mewn padell ffrio maint canolig a ffrio'r modrwyau nes eu bod yn frown euraid ar y ddwy ochr. Tua 3 munud.
- I'w weini, rhowch llond llwy o'r stwnsh mewn powlen, rhowch y bochau mochyn ar ei ben a rhoi llwyaid o'r saws drosto. Taenwch ychydig o gylchoedd siaff wedi'u ffrio drosto.

Colofn Cletwr

Mae mis Hydref a thymor yr Hydref wir wedi cyrraedd. Gwynt, glaw ac oerni. A beth sy'n well ar ddiwrnod hydrefol nag eistedd yng nghynhesrwydd cyfeillgar Caffi Cletwr gyda 'Pumpkin Spice Latte' a sleisen o deisen flasus (neu ddwy)? Amser hefyd i staff a gwirfoddolwyr Cletwr ymlacio tipyn ar ôl y llif di-ben o gwsmeriaid lyfli dros yr haf, a meddwl am jobiau eraill. Ar nos Sadwrn y 5ed daeth criw ynghyd i lanhau'r adeilad, twtio'r 'ardd' gefn, a pharatoi'r Caban newydd cyn i ni ei hagog yn swyddogol (unwaith mae'r trydan wedi'i osod!) Diolch yn fawr iddyn nhw i gyd.

Aeth Karen a Nigel i ffwrdd i Landudno, i fynychu noson gwobrwyo a Chynhadledd Busnes Cymdeithasol Cymru yn Venue Cymru. Doedd Cletwr ddim yn cystadlu y tro 'ma (wel, does dim lle ar y silffoedd am fwy o wobrau!) ond pleser o'r mwyaf oedd clywed am waith bendigedig y cystadleuwyr, busnesau cymdeithasol fel ni, ond sy'n gweithio mewn meysydd gwbl wahanol i Cletwr - gwneud ffilmiau, cwmni tacsï, gwestai, cwmnïau dylunio, cartrefi cymdeithasol a llawer mwy. Busnesau sy'n gweithio gyda phobl gydag anabledd o bob math, a phobl oedd yn gaeth i gyffuriau a diodydd cadarn. Maent i gyd yn gwneud cyfraniad mawr at eu cymunedau. Mae'n glir y bydd busnesau yn y sector cymdeithasol yn gallu chwarae rhan bwysig yn nyfodol Cymru. Oes lle i ni sefydlu mwy yn ein hardal ni? Nid jyst siopau a chaffis - ond busnesau cynhyrchu hefyd, busnesau sy'n llenwi'r bylchau wedi eu gadael gan doriadau yn y sector cyhoeddus, busnesau a fydd yn rhan annatod o'r gymuned, yn berchen i bobl yr ardal, nid cyfranddalwyr cwmnïau mawr tramor. Efallai rhywbeth i drafod ymhellach?

Wrth gwrs, yn ystod y misoedd tawel(-ach) nawr, mae cyfle i ni i gyd fynychu ein rhaglen wych o ddigwyddiadau, yn ystod y dydd a gyda'r nos. Addysg, bwyd, adloniant, iechyd - mae rhywbeth at ddant pawb, siŵr o fod. Fe fydd sesiwn nesaf ein 'loga ar gadair', sy'n boblogaidd iawn, ar y 17eg. Cyngherddau gyda Gwilym Morus a Cerys Havana ar yr 19eg, a 'Three Leg'd Mare' ar Dachwedd 16eg.

Ac fe fydd rhywbeth arbennig ar nos Galan Gaeaf - Straeon Tywyll o'r Goedwig, gyda Daniel Morden. Straeon arswyd gan un o storiwyr mwyaf poblogaidd Cymru! Chwedlau hud a lledrith a pherygl. Addas i blant dros 7 ac oedolion dewr! Cystadlaethau a gemau. Dal yr afal. Popcorn ac arswyd cyffredinol!

Manylion y rhaglen lawn ar Weplyfr, a chewch fwcio yn y siop neu ar-lein. Dewch yn llw.

Ac mewn newyddion arall... Mae Cletwr yn falch i noddi siacedi newydd Teirw Tal-y-bont, tîm pêl-droed dan 11, sy'n nawr yn eu cadw nhw'n sych ac yn gynnes!

Mae staff Cletwr yn cael bywydau tu hwnt i'r adeilad, credwch neu beidio. Llongyfarchiadau mawr i Linsey ar gwblhau'r hanner Marathon Caerdydd (am y tro cyntaf).

Ac mae llawer o ddeunydd yn y bocs 'eiddo coll' - dillad, bagiau, sbectol - pob math o stwff. Ydych chi wedi colli rhywbeth? Mae lluniau ar Weplyfr.



Straeon Arswyd O'r Goedwig gyda Daniel Morden

Nos Iau 31 Hydref
19.00 – 20.30

Straeon arswyd gan un o storiwyr mwyaf poblogaidd Cymru!
Chwedlau hud a lledrith a pherygl.

Dal yr afal. Popcorn
ac arswyd cyffredinol!
Oedolion + 7+ oed

£4.00 Rydym yn argymhell bwcio'ch lle.

Nifer cyfyngedig o docynnau ar gael ymlaen llaw gan Cletwr neu ar-lein @ Toeyn. (+ ar-lein ffi archebu).

www.cletwr.com

Dydd a Nos

Dyma'r ail bennod o'r stori dditectif gyffrous gan Geraint Evans. Cawn wybod mwy am y llofruddiaeth yn mhentref bach Dôl-y-gaer. Ond pwy yw'r llofrudd?

Gwthiodd y plisman ifanc ddrws y swyddfa'n nerfus. Cafodd rybudd na ddylai ar unrhyw gyfri styrbio Insbector Gareth Prior gan fod hwnnw'n paratoi adroddiad i'r Prif Gwnstabl. "Syr?" gofynnodd, heb unrhyw adwaith. "syr, mae 'na fenyw lawr llawr yn mynnu siarad â rhywun mewn awdurdod. Mater pwysig, trosedd ddifrifol, bywyd a marwolaeth yn y fantol." Oedodd cyn peswch yr eilwaith, "mae'n fenyw benderfynol, llais uchel, bach o snob i fod yn onest."

O'r diwedd edrychodd Gareth arno. Edrych yn ddisgrifiad annigonol gan i'r plisman deimlo'r llygaid glaswyrdd yn treiddio i ddyfnderoedd ei enaid. "Gwers gyntaf plismona effeithiol, osgoi tynnu llinyn mesur dros y cwsmeriaid. Temtasiwn gref fel rwy'n gwybod o brofiad. Manylion y drosedd?"

Gwridodd y plisman. "Sori, wnes i anghofio gofyn."

"Ail wers plismona effeithiol, nodi'r manylion. Nawr, os yn fater o fywyd a marwolaeth well i chi nôl y fenyw. Enw?"

Dyfnhaodd y gwrid a dihangodd y plisman rhag cerydd pellach. Gymaint oedd ei frys fel iddo bron daro yn erbyn y Ditectif Sarjant Teri Owen. Gallech weld ar unwaith fod Teri yn ddrwg ei hwy, ei gwallt tywyll pigog yn domen anniben a'i cheg yn linell galed o siom a dicter. O dan amgylchiadau cyffelyb dysgodd Gareth mai yr ymateb gorau oedd distawrwydd, tawelu yn hytrach na chynhyrfu'r dyfroedd gan obeithio y pasia'r storom. Mewn hir a hwyr mentrodd, "yr achos llys, ddim fel y disgwyl?"

"Dedfryd o flwyddyn o garchar, wedi'i ohirio. Gohirio! Rhacsyn penna' Aberystwyth yn gwenu o glust i glust a mis o waith lawr y pan. Ac yn y cyfamser gweision y rhacsyn yn rhydd i ladrata a delio mewn drygs. Ynadon, fflipin ynadon, dyle nhw ddod mas gyda ni nos Sadwrn i weld effaith yr heroin a'r cocên."

Clywyd cnoc ar y drws, ail ymddangosodd y plisman a chyhoeddi, "Marian Fosse," yn union fel blaenor mewn capel. Daeth y ddynes i mewn, eistedd heb wahoddiad a thaflu cip-olwg ddirmygus ar y swyddfa. Roedd ei gwallt yn syrthio at ei ysgwyddau yn donnau melyn naturiol na welodd triniaeth potel erioed. Eiliau trwm fel dau fwa yn tynnu sylw at y llygaid glas a minlliw llachar yn amlygu gwahoddiad y gwefusau. Gwisgai ffrog hufen syml a oedd heb amheuaeth wedi costio ffortiwn. Roedd croen ei breichiau a'i choesau yn dywyll frown, y lliw yno mae'n siŵr o dreulio hir gyfnodau yn yr haul. Er ei harddwch yr adwaith gyffredinol oedd o berson trahaus, unigolyn yn hen gyfarwydd â gorchymyn a dweud y drefn.

"Croeso, Ditectif Insbector Gareth Prior a dyma Ditectif Sarjant Teri Owen. Shwt allwn ni helpu? Beth yw'r mater difrifol?"

Daeth yr ateb fel ergyd o wn. "Mwrdrwr, dim byd lai na mwrdrwr!"

Cododd Gareth ei eiliau oherwydd gwyddai i sicrwydd na fu achos o lofruddiaeth yng Ngheredigion o fewn y deuddeng mis blaenorol. Gyda syndod yn eglur yn ei lais gofynnodd, "a ble digwyddodd y drosedd?"

"Pentref Dôl-y-gaer, a cyn i chi ofyn y person laddwyd oedd Meurig Rhys."

Iawn, cafwyd lle ag enw ond roedd Gareth yn dal yn y niwl. "Dw i'n meddwl bod angen esboniad."

Ochneidiodd y ddynes cyn cychwyn ar ei stori. "I bawb sy'n hyddysg yn hanes Maenordai Dyfed, Meurig Rhys yw'r arbenigwr. Treulio'i yrfa yn y Brifysgol, ei deitl llawn, yr Athro Emeritws Meurig Rhys, i fi cefnder Meurig. Y ddau ohonom yn cadw cysylltiad agos trwy lythyrau, cardiau Nadolig a phen blwydd a galwadau ffôn tan Nadolig 2018. Yna'n sydyn distawrwydd llethol. Llythron heb eu hateb, dim cerdyn Nadolig, ffonio a chlywed neges nad oedd y rhif ar gael."

"Beth am ffôn symudol?," holodd Teri.

"Honno yr un mor farw. Yn y diwedd wnes i benderfynu dod yma i ganfod beth oedd wedi digwydd. Posiblirwydd y gallai Meurig fod yn yr ysbyty a neb yn gwybod sut i gysylltu â fi. Cyrraedd Aberystwyth, mynd i'r tŷ a chael y lle yn hollol wag. Y cyfan yn lân a thaclus ond neb yno, dim un enaid byw. Gyrru at y gymdoges, siarad gyda'r wraig a derbyn y newyddion syfrdanol fod Meurig wedi gadael ar daith ymchwil i America ers rhyw bedwar mis."

"Pam syfrdanol?"

"Meurig yn casáu'r wlad. A beth bynnag mae'r holl bapurau ar Faenordai Dyfed yn y Llyfrgell Genedlaethol."

"Ar tro diweddaraf i chi weld eich cefnder, cyfarfod wyneb yn wyneb?"

"Mehefin 2018. Rwy'n byw yn Kitzbuhel, Awstria, ac yn berchen clinig anafiadau sgïo. Daeth Meurig i Wyl Salzburg ac fe fuon ni mewn sawl cyngerdd a chael y pleser o wrando ar Bryn Terfel yn canu un o operâu Mozart."

"A'i gyflwr pryd hynny?"

"Ymddangos yn holliach. Cwyno am ychydig flinder oherwydd y baich o baratoi cyfrol i'r wasg."

Ail ymunodd Gareth yn yr holi. "Wnaethoch chi ddefnyddio'r geiriau 'cysylltiad agos.' I fi mae'n ymddangos mwy fel perthynas lled-braich."

Edrychai Marian Fosse fel petai wedi'i chlwyfo i'r byw. "Dyna fel oedd hi. Roedd gen i fy ngyrfa a bywyd yn Kitz a Meurig yr un fath yma yng Nghymru. A rhaid i chi ddeall fod Meurig yn ddyn preifat iawn, yn arbennig yn ei fywyd personol... I fod yn blaen Insbector rwy'n synhwyro diffyg parodrwydd i agor ymchwiliad i fwrdrwr sy wedi digwydd fan hyn ar eich stepen drws."

"Annheg. Chi wedi defnyddio geiriau sobor fel marwolaeth a mwrdrwr heb gyflwyno rhithyn o brawf. Cyhuddiadau fel 'na yn gofyn am ffeithiau moel."

Pwysodd y ddynes i'w bag llaw, estyn am ddarn o bapur a'i osod ar y ddesg o flaen Gareth. Dywedodd yn herfeiddiol, "dyma'r ffeithiau! Bydd y brawddegau cyntaf yn hen ddigon o brawf."

Darllenodd Gareth yn uchel, "Mae'n greulon a thwyllodrus. Person disylw, nonentity. Rheoli, iselhau, bwlian, bygwth, dyna'r sgiliau. Blas chwerw ar y dŵr heddiw, y tabledi'n sur ac yn rhyfedd." Pwyllodd cyn gofyn y cwestiwn tyngedfennol, "am bwy mae'n sôn?"

"Dim syniad."

© hawlfraint: Geraint Evans

Pwy yw'r llofrudd? Mynnwch gopi o'r rhifyn nesaf i ddarganfod mwy.

Tensiwn ar bob tudalen!



Nofelau ditectif
GERAINT EVANS

y **olfa**.com

Llyfrau dros Gymru

Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch



Yn wahanol i'r arfer, cynhaliwyd cyfarfod cynta'r gangen draw yn Llambed yn hytrach nag yn ystafell waelod y Neuadd Goffa! Er y trafferthion ar y ffordd i Gegin Gareth Richards, cogydd poblogaidd y rhaglen 'Prynawn Da' ar S4C, cyrhaeddodd pymtheg ohonom i dderbyn croeso cynnes a diod a 'chanapes'!

Thema'r noson oedd 'Y Cynhaef' ac fe gawsom arddangosfa goginio o wahanol fwydydd gan ddefnyddio cynnyrch a chynhwysion tymhorol.

Paratodd Gareth gacen y cynhaef, tartenni hydrefol sbeislyd, myffins corpwmpen a hadau, treiffl sydyn a phicl bricyll. Yna gosododd y cyfan yn grefftus a lliwgar a oedd yn wledd i'r llygaid ac yn tynnu dŵr o'r dannedd.

I gloi'r noson mwynhaodd pawb swper tri chwrs hynod o flasus cyn troi am adre.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 21 Hydref am 7.30 yn ystafell waelod y Neuadd Goffa. Beth am ymuno â ni?

Taith Gerdded



Cynhaliwyd taith gerdded o gwmpas ardal Bont-goch a Chwm Eleri dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ar 22 Medi dan arweiniad Richard Huws a Meurig Davies. Dengys y llun y cerddwyr yn cael seibiant haeddiannol yn ymyl gwaith mwyn Bwlch-glas. Os am ymuno â'r Gymdeithas cysylltwch gyda Richard ar rehuws@aol.com

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Y Gair Olaf



Mae'n siŵr fod pawb wedi clywed am y miliynau o blant ysgol ar draws y byd sydd wedi bod yn protestio yn ddiweddar. Greta Thunberg, merch 16 oed o Sweden a arweiniodd blant y byd i fethu diwrnod o ysgol er mwyn protestio. Codasant eu llais er mwyn mynnu bod gwleidyddion ar draws y byd yn gweithredu ar frys i dacio'r argyfwng ecolegol cynyddol sy'n digwydd.

Mae arbenigwyr a gwyddonwyr yn cadarnhau fod y blaned yn cynhesu ar gyflymder nad oeddent wedi disgwyl gweld am ddegawd arall. Mae newid hinsawdd yn arwain at golli cynefinoedd, at dywydd mwy eithafol, ac at iâ'r pegynau a rhewlifoedd i doddi, sydd yn arwain at godi lefel y môr.

Mae'n galonogol gweld pobl ifanc y byd yn codi eu lleisiau ac yn ymladd dros yr amgylchedd, gan mai nhw fydd yn etifeddu'r problemau sy'n codi yn sgîl cynhesu byd-eang a newid hinsawdd.

Mae Llywodraeth Cymru erbyn hyn wedi datgan argyfwng hinsawdd, ac mae hi yn bwysig ein bod ni fel unigolion yn gwneud popeth a fedrwn i leihau ein hól troed carbon a'n heffaith ar yr amgylchedd.

Gwneud pethau syml fel ailgylchu, lleihau defnydd o blastig, rhannu ceir a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus (pan fydd yn gyfleus), bwyta cynnyrch o Gymru a chofio diffodd goleuadau a theclynnau trydanol os nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Os gwneith pawb ohonom eu rhan, gobeithio y gallwn atal y broses o gynhesu byd-eang cyn y bydd hi yn rhy hwyr i blant y dyfodol.

Eilir Huws

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Hydref 19, 2019 7.30

Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020

CYNGERDD MAWREDDOG

YN EGLWYS
LLANBADARN

CÔR GODRE'R ARAN
GWAWR EDWARDS
THOMAS MATHIAS

CÔR YSGOL GYMRAEG
ABERYSTWYTH

ARWEINYDD : GLAN DAVIES

Oedolion - £12; Plant - £5

Am fwy o wybodaeth:
Rhiannon - cemaes@btinternet.com
Geraint - gr.thomas@btinternet.com

TOCYNNAU:
Ar gael yn Siop Inc
+ Siop y Pethia.



CHWARAEON

Ieuenctid Tal-y-bont

Dyma dîm dan saith oed Tal-y-bont yn derbyn hwdis gan Alison Jones o 'Alison Jones Schoolwear'. Mae'r tîm yn ddiolchgar iawn am y nawdd caredig hwn.



Sioe Ffasiynau'r Hydref

1 Tachwedd

@7.00 o'r gloch **Neuadd Goffa Tal-y-bont**

Dillad gan:

Lan Llofft, Duet a Doti a Celt

Mynediad trwy docyn
£8 yn cynnwys diod • Plant o dan 16 am ddim
Elw tuag at Cylch Meithrin Tal-y-bont a Cronfa Leol Eisteddfod 2020

Croeso cynnes i bawb
Tocynnau ar gael oddi wrth:

Siwan 07527 407781	Ceri 07971 109451
Rhian 07773 313867	Bethan 01970 832244



Megan Williams

Marchogesau Llwyddiannus

Mae dwy o ferched ifanc yr ardal hon wedi cael llwyddiant mawr dros yr haf, sef Megan Williams, yr Hen Ysgol, Llangynfelyn, a Becca Fleming Jenkins, Dôl-Pistyll, Tal-y-bont. Enillodd Megan sawl gwobr yn Sioe Tal-y-bont, ac yn y llun gwelir Megan ar gefn ei chaseg 'Cherry' a enillodd y brif bencampwriaeth yn Sioe Dyffryn Paith.



Becca Fleming Jenkins

Cafodd Becca a'i cheffyl 'Da's Dilema' gryn lwyddiant yn ystod yr haf gan gipio un bencampwriaeth a'u dyfarnu'n is-bencampwr ar chwe achlysur mewn sioeau ar hyd a lled y wlad. Daethant hefyd yn ail yn yr Ŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad ac enillwyd nifer o wobrau yn y maes 'dressage'. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt.

Pysgotwr o fri!

Llongyfarchiadau i Ceri Jones, Pistyll y Llan ar ennill ei gap cyntaf i dîm pysgota plu rhyngwladol Cymru. Cynhaliwyd y gystadleuaeth dan nawdd Cymdeithas Genweirwyr Eog a Brithyll Cymru dros bedwar cymal ar lynnoedd Trawsfynydd, Brenig, Clywedog a Llandegfedd. Dewisiwyd aelodau'r tîm ar sail y tri sgôr gorau dros y pedwar cymal. Pob lwc i Ceri ar y cystadlu y flwyddyn nesaf.

Cwpan Golff

Llongyfarchiadau i David Griffiths, Maes-y-Deri, Tal-y-bont ar ennill cwpan tra'n chwarae golff yn Wilmslow, Swydd Gaer. Mae David yn aelod gyda Chlwb Golff Borth ac Ynyslas.

argraffu da am bris da



ylLolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576